**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**4/10/2022**

**Presennol:** **Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Euros Roberts (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2399** **C**roesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd gydymdeimlad i y Cynghorydd Alan Jones Evans a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar. Llongyfarchwyd ef am ei lwyddiant yn yr is-etholiad ar gyfer sedd ar Gyngor Gwynedd

**2400** **Ymddiheuriadau:** derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alwyn E Jones, Dewi Wyn Jones , Alwyn M Roberts, Rhodri Prys Jones

***2401*** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**2402** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/9/22

**2403** **Materion y Clerc**

1. Anfonwyd at Gyngor Gwynedd am y coed yn tyfu o'r hen bont rheilffordd tu ôl i Tŷ'n Ddôl.
2. Anfonwyd cais at Heddlu Gogledd Cymru o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am fanylion damweiniau ar yr A494 rhwng Dolgellau a'r Dwyryd ers 2010.
3. Dosbarthwyd ffurflen a manylion cyrsiau Un Llais Cymru er mwyn canfod anghenion hyfforddiant.

**2404** **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Cynghorydd Gwynedd. Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans fod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am y fasarnen wrth safle ail-gylchu Weirglodd Wen. Bydd Cyngor Gwynedd yn uwchraddio'r safle gan sicrhau nad oes posib llygru'r ffos sydd yn ymyl y fan.

**Pontydd:** Mae'r gwaith ar bont Talardd wedi ei orffen. Mae paentio canllaw pont y Llan ar y rhestr gwaith. Pont y trên tu nol i Ty'n Ddôl – bydd archwiliad o'r bont yn cael ei wneud yn fuan.

**Asedau:** Mae wedi cofrestru cais i archwilio lampau a newid amser golau'r Gilfach Goffa.

**Tocio:** Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i docio o loches bws Ty'n Ddôl i Bengeulan.

**A494:** Bydd yn cysylltu gyda swyddog newydd cefnffyrdd, Bedwyr Davies, i'w atgoffa am y gwaith sydd angen ei wneud i wella gwelededd Stryd y Prys.

**Safle i'r bws droi nol wrth yr Hen Felin:** Cytunwyd i gychwyn y broses o osod llinellau dwbl melyn yno gan y bu trafferthion yn ystod yr haf gyda cheir cerddwyr yn cael eu gadael yno.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r Cynghorydd am weithredu ar faterion lleol hyd yn oed cyn iddynt cael eu codi gan y Cynghorwyr.

**2405 Derbyniwyd adroddiadau o'r is-bwyllgorau:**

1. Grŵp Datblygu: Adroddodd Huw Antur
   i. Mae angen gwaith ymgynghori'n lleol.
   ii. Trefnir hyfforddiant gyda Planning Aid Cymru, gan roi gwahoddiad i aelodau Llangywer.
   iii. Mae cynlluniau strategol eraill ar y gweill yn yr ardal megis gwaith Cwmni Pum Plwy Penllyn ac Ardal Ni (Cyngor Gwynedd )
   iv. Tai – bydd Grŵp Cynefin a Sylfeini'n ymweld a'r Cyngor y mis nesaf
   v. Soniwyd am yr Eglwys a'r angen i ffeindio defnydd iddo fel ased gymunedol cyn iddo ddirywio a rhag iddo fynd i ddwylo estron.
   vi. Cytunwyd i wneud ymholiadau ar greu llwybr diogel i'r ysgol (y Cynghorydd Alan Jones Evans i weithredu ar hyn – Gwynedd, tirfeddiannwr a'r ysgol)
2. Mynwentydd – heb gyfarfod hyd yn hyn.
3. Bioamrywiaeth – cymeradwywyd y Cynllun Bioamrywiaeth 2022-25 (sydd yn statudol). Tynnwyd sylw fod goblygiadau i Is-bwyllgorau eraill hefyd.
4. Nadolig – wedi cychwyn trafodaethau. Nodwyd fod Cwt y Saer ar gael yn awr. Ni fydd angen recordio cyngerdd ar Zoom eleni.
5. Asedau: Nodwyd fod Alwyn M Roberts yn cysylltu gyda Dŵr Cymru parthed y cyfleusterau. *Soniwyd yn ychwanegol fod angen pwysau i gau'r drysau allanol*. Cytunwyd i drwsio ffenestri ciosg Penantlliw (Huw Pierce Roberts).
6. Cyllid – mae'r sefyllfa ariannol yn ôl y disgwyl.

**2406 Materion Ariannol:** Derbyniwyd y manylion yn y fantolen ariannol Cytunwyd gyda'r taliadau o dan Cytundeb, sef Cyflog y Clerc, Cyflog SAC a'r Fynwent, CThEM, Glanhau; CCF - Nwyddau Toiledau £68.82

Cais am arian: cytunwyd i'w drafod gyda cheisiadau eraill yn y flwyddyn newydd.

**2407 Partneriaeth Penllyn** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Dywedodd Huw Antur ei fod yn gyfnod prysur gyda'r Hwb Llesiant wedi ei sefydlu. Cysyllter gyda Sioned Evans os oes angen cymorth ar rywun mewn unrhyw faes llesiant. Mae'r Cynllun Economaidd Lleol yn cael ei baratoi. Maent hefyd wedi agor trafodaeth ar reolaeth Canolfan Bro Tegid.

**2408 Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau.

**2409 Gohebiaeth:** Nodwyd derbyn:

1. Gwahoddiad i sesiwn briffio argae Llyn Celyn 14/10/22 am 1.30pm
2. Gwahoddiad i anfon sylwadau ar y Triathlon eleni: cytunwyd i ddiolch am drefniadau effeithiol eleni.
3. Hyfforddiant ar lein (10am-4.00pm) 27/10/2022: Adeiladu lleoedd cydnerth ar gyfer natur

4. Cyfoeth Naturiol Cymru: Rhoddwyd gwybodaeth am gyfle i drafod yn y Neuadd ar gynllun coedwigaeth ardal Llanuwchllyn pnawn 12/10/22. Manylodd y Clerc ar y cynllun (e-bostiwyd) ac anogwyd Cynghorwyr ac eraill i ymateb erbyn 28/10/22
5. Un Llais Cymru Cynhadledd ar lein ar Bioamrywiaeth 27/10/22
6. Un Llais Cymru – hyfforddiant 9/11/22

**2410 Materion lleol y Cynghorwyr,** yn cynnwys:

1. Arwydd wrth bwmp y Llan: bydd y Cynghorydd Alan Jones Evans yn ymchwilio i berchnogaeth yr ardal hon.
2. Nodwyd y caewyd ffordd Penantlliw heddiw am gryn 2 awr heb rybudd; cytunwyd efallai bod argyfwng wedi bod yn gyfrifol am hyn.

**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 1/11/22 yn y Neuadd Bentref. Bydd cynrychiolwyr o Gynefin a Sylfeini'n bresennol am 7.30pm

*Amser gorffen: 8.45pm*